Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Cyllid Datblygu Gwledig yng Nghymru

Ebrill 2007

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn dangos y trefniadau ar gyfer cyllid datblygu gwledig yr UE a'r cynnydd ar Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013. Mae cysylltiadau â rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol wedi'u hamlygu.

## 2. Datblygu gwledig 2007-2013

Ariennir y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) drwy'r EAGGF[1] ac mae'n costio rhyw €50bn y flwyddyn i'r UE (tua 50% o gyfanswm cyllideb yr UE). Mae'r PAC yn cyfeirio cyllid drwy ddwy 'golofn': Colofn 1 (cymorth marchnad ar gyfer cynhyrchu uniongyrchol, y taliad sengl), a Cholofn 2 (datblygu gwledig). Gall cyllid gael ei symud rhwng y ddwy 'golofn' drwy **fodiwleiddio** hyd at derfynau a osodir gan yr UE.

Mae'r UE yn gosod y rheolau ar sut y caniateir i wariant datblygu gwledig gael ei wario yn y Rheoliad Datblygu Gwledig[2] ac yng Nghanllawiau **Strategol yr UE ar gyfer Datblygu Gwledig.**[3] Rhaid i bob Aelod-wladwriaeth sefydlu Cynllun Strategaeth Cenedlaethol (NSP) ar gyfer datblygu gwledig. Yn y Deyrnas Unedig, mae Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban wrthi'n paratoi Cynlluniau Datblygu Gwledig (RDPs) unigol sy'n cyfuno i ffurfio NSP y Deyrnas Unedig, yn yr un modd ag ar gyfer rhaglenni 2000-06.

Yn achos rhaglenni 2007-2013:

- Bydd cronfa newydd, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) yn cynnig un ffynhonnell ariannol ar gyfer holl weithgareddau datblygu gwledig yr UE, gan gyfuno'r hyn a arferai gael ei ariannu gan elfennau'r EAGGF yn rhaglen Amcan 1 2000-06 â'r hyn a arferai gael ei ariannu o dan RDP 2000-06 (a oedd yn gymwys y tu allan i ardaloedd Amcan 1).
- Bydd polisi 2007-2013 yn hoelio sylw ar dri maes yn unol â'r echelau a nodwyd yn y Rheoliad Datblygu Gwledig, gydag echel arall ar gyfer ymagweddau lleol at ddatblygu gwledig (gweler isod i gael rhagor o fanylion).

[1] Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop
[2] *Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1698/2005 20 Medi 2005 ar gymorth at ddatblygu gwledig gan Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)* http://eurlex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2005:277:0001:0040:EN:PDF
[3] Canllawiau Strategol yr UE ar gyfer Datblygu Gwledig **http://ec.europa.eu/comm/agriculture/capreform/rdguidelines/index_en.htm**

- Mae'r echelau'n cynnwys 34 o 'fesurau' sy'n amlinellu'n fras y mathau o weithgareddau a all gael eu hariannu o dan yr RDP.
- Caiff yr Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG) ei ddisodli gan Gronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF).

Mae Rheoliad yr EAFRD yn amlinellu pedair echel y caniateir i arian gael ei wario odanynt, ac isafsymiau ar gyfer pob un:

| | | |
|---|---|---|
| **Echel 1** | → | Gwella cystadleurwydd ffermio a choedwigo (10%) |
| **Echel 2** | → | Yr amgylchedd a chefn gwlad (25%) |
| **Echel 3** | → | Gwella ansawdd bywyd ac arallgyfeirio economi cefn gwlad (10%) |
| **Echel 4** | → | Rhaid i bob rhaglen gynnwys elfen 'Leader' i weithredu mentrau datblygu lleol sy'n gweithio o'r gwaelod i fyny (bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy'r tair echel arall) |

## 3. Cynllun Datblygu Cymru Wledig 2007-2013

Daeth ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar yr RDP drafft i Gymru (RDPW) 2007-2013 i ben ar 21 Gorffennaf 2006. Roedd yr RDPW i fod i gael i gyflwyno i'r Comisiwn ar ddiwedd 2006 ond mae hynny wedi'i ohirio oherwydd anghytundeb rhwng Senedd Ewrop a'r Cyngor Amaethyddol ynghylch y cynnig i ganiatáu i'r Aelod-wladwriaethau gynyddu'r gyfradd modiwleiddio o'u gwirfodd hyd at 20% o Golofn 1 i Golofn 2. Mae Senedd Ewrop yn erbyn modiwleiddio gwirfoddol gan fod hynny i bob pwrpas yn "ail-wladoli" penderfyniadau am lefel y cymorth i ffermwyr drwy gyfrwng Colofn 1 (gweler barn Senedd Ewrop dyddiedig 13 Chwefror 2007[4]).

Cafodd y rheoliad ar fodiwleiddio gwirfoddol ei fabwysiadu yn y pen draw yng Nghyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd yr UE ar 19 Mawrth 2007.[5] Y pwyntiau allweddol yw mai dim ond i'r deyrnas Unedig a Phortiwgal y bydd modiwleiddio gwirfoddol yn gymwys ac y caniateir i'r penderfyniad ar y gyfradd i'w defnyddio bob blwyddyn rhwng 2007 a 2013 gael ei wneud ar lefel ranbarthol.

[4] http://www.europarl.europa.eu/sides/getDoc.do?pubRef=-//EP//NONSGML+REPORT+A6-2007-0009+0+DOC+PDF+V0//EN&language=EN

[5] *Rheoliad y Cyngor yn nodi rheolau ar gyfer modiwleiddio gwirfoddol ar daliadau uniongyrchol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad (EC) Rhif 1782/2003 yn sefydlu rheolau cyffredin ynglŷn â chynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr, ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1290/2005*
http://register.consilium.europa.eu/pdf/en/07/st07/st07060.en07.pdf

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod yr Ail Gynulliad y caiff y Cynllun Datblygu Gwledig ei gyflwyno ym mis Gorffennaf i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiwn. Mae'r negodi gyda'r Comisiwn yn parhau. Mae hyn yn golygu mai'r Llywodraeth newydd fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar y Cynllun, a hynny ar ôl yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai. Mae hyn yn cynnwys manylion y mesurau, lefel y cymorth ariannol a fydd ar gael a chyfradd y modiwleiddio gwirfoddol a fydd yn gymwys yng Nghymru. Bydd y derbyniadau o'r modiwleiddio gwirfoddol yn canolbwyntio ar helpu gweithgareddau amaeth-amgylcheddol o dan Echel 2.

Wrth ddisgwyl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yr Ail Gynulliad wedi trafod gyda'r Comisiwn sut i symud gweithgareddau'r RDP a'r taliadau perthynol ymlaen o 1 Ionawr 2007 ymlaen.

Mae'r RDPW yn gofyn bod rhaid cael Pwyllgor Monitro Rhaglenni (PMC). Mae ei aelodau'n cael eu penodi gan Lywodraeth y Cynulliad o blith amrywiaeth o bartneriaid cyhoeddus, cymdeithasol ac economaidd.

## 4. Beth gaiff ei ariannu?

Cyflawnir yr RDPW drwy'r pedair echel, fel y'u nodwyd gan yr UE (gweler uchod).

- Bydd Echel 1 yn ariannu Cynllun Grant Datblygu Marchnata a Phrosesu; Cynllun Bwyd o Safon; Cyswllt Ffermio a Gwasanaeth Cyngor Ffermio; effeithlonrwydd y gadwyn gyflenwi.
- Y bwriad ar gyfer Echel 2 yw parhau â'r gyfres bresennol o fesurau amaeth-amgylcheddol a ariannwyd gan RDPW 2000-2006 tan 2008 megis Tir Gofal a chynllun yr Ardaloedd Llai Ffafriol, sef Tir Mynydd. Bydd grŵp o randdeiliaid yn adolygu pob mesur sydd ar gael erbyn diwedd 2007 a rhoddir y casgliadau ar waith o 2009 ymlaen.
- Caiff Echelau 3 a 4 sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwledig lleol o'r gwaelod i fyny eu cyflawni drwy Bartneriaethau a Grwpiau Lleol a ddewisir drwy gystadlaethau. Dylai ceisiadau i Lywodraeth y Cynulliad fod wedi'u cyflwyno erbyn diwedd Mawrth 2007.

## 5. Faint sydd ar gael?

€1.9bn (tuag £1.3bn) yw dyraniad datblygu gwledig y Deyrnas Unedig ar gyfer 2007-2013. Mae manylion penderfyniad y Comisiwn ar ddyraniadau ar gael **yma**. Tua £195m yw cyfanswm dyraniad Cymru am y cyfnod hwn, sef:

- £70m o'r EAFRD;
- £57m o Fodiwleiddio Gorfodol (5% o gymorth Colofn 1); a

- £68m o'r Gronfa Gydgyfeirio.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys adnoddau Llywodraeth y Cynulliad ei hun, a ddefnyddir i gyfateb i'r arian Ewropeaidd, na symiau sydd i'w codi drwy fodiwleiddio gwirfoddol ac y cytunir arnyn nhw gan Lywodraeth newydd y Cynulliad. Rhagwelai Llywodraeth Cynulliad Cymru yr Ail Gynulliad mai rhyw £770m fyddai cyfanswm y gwariant ar Gynllun Datblygu Gwledig 2007-13.

Awgrymodd yr ymgynghori ar RDP Cymru y gallai'r arian gael ei dargedu at Echelau 2, 1, 3 a 4 o ran trefn eu blaenoriaeth, fel y gwelir isod.

| | Swm (€m) | % o gyfanswm y gwariant |
|---|---|---|
| Echel 1 | 158 | 14 |
| Echel 2 | 825 | 75 |
| Echel 3 | 83 | 8 |
| Echel 4 | 34 | 3 |
| **Cyfanswm** | 1,100 | 100 |

*Ffynhonnell: Ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar RDP 2007-2013*

Adolygwyd yr RDP gan Bwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y Cynulliad ym mis Tachwedd 2005.[6]

## 6. Rhaglenni 2000-06

Roedd RDP Cymru 2000-06 yn gymwys i Gymru gyfan ac eithrio'r rhannau hynny y mae'n eglur eu bod yn drefol ac wedi'u datblygu,[7] gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Creu sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth cryfach;
- Cynnal a diogelu'r amgylchedd a'r dreftadaeth wledig; a
- gwella cystadleurwydd economaidd cymunedau ac ardaloedd gwledig.

Ariannodd RDPW 2000-06, er enghraifft, elfennau o Dir Mynydd a Thir Gofal, a'r Cynllun Gwella Ffermydd, y Cynllun Grant Datblygu Marchnata a Phrosesu a'r Cynllun Grant Coetir. Rhoddodd yr EU €150m i'r RDPS (o'r EAGGF), a oedd, ynghyd ag arian Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn rhoi cyllideb RDP o gyfanswm o €534m ar gyfer 2000-06. Yn y Gorllewin a'r Cymoedd, cafodd yr arian ei reoli drwy elfennau EAGGF a FIFG rhaglen Amcan 1.

## 7. Y Cysylltiadau â'r Cronfeydd Strwythurol

Mae RDPW 2007-2013 yn cael ei ddatblygu'n gyfochrog â'r rhaglenni Cydgyfeirio (y Gorllewin a'r Cymoedd), Cystadleurwydd (y Dwyrain) a Chydweithredu (Iwerddon-Cymru). Mae Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF) y Deyrnas Unedig yn amlinellu

[6] Trawsgrifiad o drafodaeth y Pwyllgor ar yr RDP EPC131105
[7] Cynllun Datblygu Cymru Wledig 2000-06 http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038231121/403822/rdp_2-e.pdf?lang=en

cynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i integreiddio'r ddwy ffrwd, gan ddweud hyn: "in the agricultural and environmental sectors, it intends to focus Rural Development support on local community development, while concentrating the Structural Funds more closely on the Lisbon Agenda for growth and jobs".

Yn ôl y Rhaglen Weithredol ddrafft ar gyfer Cydgyfeirio, "scale will be a major factor in determining whether projects would qualify for RDP or Structural Fund support with Convergence funding primarily being within the framework of the *Wales Spatial Plan* and RDP activities normally being restricted to individual Local Action Group (LAG)/local authority areas".

## 8. Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y dolenni.

- Tudalennau Llywodraeth y Cynulliad ar **Bolisi Cefn Gwlad a Thaliadau Gwledig**
- **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru** Llywodraeth y Cynulliad
- **Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad** yr Ail Gynulliad
- **Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth** y Comisiwn Ewropeaidd
- Dogfen Llywodraeth y Cynulliad ar y cyfle i weld Gwybodaeth: **European Funding – how it works (Gorffennaf 2003)**
- **Papurau Ymchwil** Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Gallwch weld rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus** yma.

**MRS 07/1083**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**